TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Tystysgrif mewn Peirianneg (Gweithgynhyrchu Uwch) Lefel 3

Yn gryno

Mae angen ar ddiwydiant gweithgynhyrchu modern weithlu sy'n gallu defnyddio'r deunyddiau cyfansawdd diweddaraf, peiriannau wedi'u hawtomeiddio gan gyfrifiadur cyfoes, a thechnegau argraffu 3D. Bydd y cwrs BTEC Diploma Estynedig hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i chi er mwyn bod ar flaen y gad yn y diwydiant hwn sy'n newid yn gyflym. Mae'n gyfwerth â 3 chymhwyster Safon Uwch.

Dyma'r cwrs i chi os...

... os hoffech chi yrfa mewn peirianneg weithgynhyrchu fodern

... os hoffech chi weithio gyda phrosesau gweithgynhyrchu cyfoes

... os ydych chi'n dwlu ar weld syniadau am gynnyrch newydd yn cael eu gwireddu

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Caiff y cwrs hwn ei asesu trwy ystod o weithgareddau gweithdy ymarferol, aseiniadau a phrofion ar-lein allanol.

Trwy astudio ar y cwrs hwn, byddwch chi'n:

Datblygu'r egwyddorion mathemateg, trydanol a mecanyddol sylfaenol angenrheidiol ar gyfer diwydiant.
Dysgu am ddiwydiant a'r disgwyliadau wrth weithio ym maes gweithgynhyrchu.
Cyflawni tasgau ymarferol mewn gweithdai o'r radd flaenaf gan gynnwys gweithio gyda pheiriannau modern a reolir gan gyfrifiadur, peiriannau argraffu a sganio 3D.
Dysgu sut i ddatblygu eich syniadau am gynnyrch gan ddefnyddio technegau dylunio a gweithgynhyrchu â chymorth cyfrifiadur.

Yn yr ail flwyddyn, byddwch chi'n gallu tynnu'r holl sgiliau at ei gilydd mewn prosiect sy'n berthnasol i ddiwydiant.

Ar ddiwedd y cwrs, byddwch chi'n ennill

BTEC Diploma Estynedig mewn Peirianneg (Gweithgynhyrchu Uwch)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru, bydd angen:

5 TGAU gradd A* i C. Mae'n rhaid i hyn gynnwys gradd B mewn Mathemateg ac o leiaf gradd C mewn Gwyddoniaeth ac Iaith Saesneg (neu Gymraeg fel iaith gyntaf)

neu

Gymhwyster Lefel 2 perthnasol a gradd B ar gyfer TGAU Mathemateg

Hefyd, rhoddir ystyriaeth i fyfyrwyr hyn nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod yn llawn ond maent yn meddu ar brofiad perthnasol. Bydd hyn yn cael ei benderfynu trwy gynnal trafodaeth ag arweinydd y cwrs.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar gwblhau'r cwrs, gallech chi symud i:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Addysg Uwch megis cwrs HNC/D neu gwrs gradd yn Coleg Gwent
Prentisiaeth yn niwydiant gweithgynhyrchu / peirianneg
Byd gwaith